Promoting improvements in policing to make everyone safer

Mae’r llu’n dweud...

Gogledd Cymru yw un o’r lleoedd diogelaf yn y Deyrnas Unedig. Mae’r ardal wledig yn bennaf ag ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol sy’n denu nifer uchel o ymwelwyr megis Parc Cenedlaethol Eryri. Cwmpasir yr ardal gan chwech awdurdod lleol ac mae Llywodraeth Cymru’n goruchwylio materion datganoledig. Mae’r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o’n diwylliant a adlewyrchir yn ein gweithlu ac arferion gweithio. Mae’r boblogaeth o 687,937 wedi’i chanolbwyntio o amgylch Wrecsam a Glannau Dyfrdwy ac ar hyd y rhimyn arfordirol yn cynnwys trefi megis Rhyl, Llandudno a Bangor. Mae dwy brifysgol yn Wrecsam a Bangor yn darparu ar gyfer poblogaeth o 25,475 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn academaidd. Cysylltir yr ardal â seilwaith traffyrdd Lloegr gan y Wibffordd A55 sy’n bwydo’r porthladd o Gaergybi, yr ail brysuraf yn y DU.

Mae’r cymysgedd amrywiol hwn yn cyflwyno amrywiaeth o heriau plismona gan grwpiau troseddu cyfundrefnol a throseddoldeb draws-ffiniol i atal ac ymchwilio troseddu gwledig a bywyd gwyllt. Yn 2015/16 fe wnaeth y llu ddelio â 433,374 o alwadau ac o’r rhain roedd 149,844 yn alwadau am gymorth. Fe wnaeth y llu gofnodi 38,517 o droseddau am yr un cyfnod, gostyngiad o 7.3% o ran troseddu ar gyfer pob 1,000 o’r boblogaeth ers 2010/11. Mae gan y llu yr ail risg isaf o drosedd personol ar y lefel genedlaethol a’r trydydd isaf ar gyfer troseddu cartref.

Darperir plismona yng Ngogledd Cymru gan 1,458 o swyddogion heddlu a gefnogir gan swyddogion cymorth cymunedol heddlu, cwnstabliaid arbennig, gwirfoddolwyr a staff heddlu. Mae’r nifer o swyddogion heddlu wedi gostwng o 8% ers 2010 o gymharu â’r gostyngiad cyfartalog o 14% ar y lefel genedlaethol, ond mae’n aros yn un o’r gwariannau uchaf am y boblogaeth ar blismona lleol, yn ôl llu, yn 2015/16.

Mae’r llu wedi cyflawni’r arbedion gofynnol dros dymor yr adolygiad cynhwysfawr o wariant o £24.1m ag arbedion pellach o £7.4m yn ofynnol dros y pedair blynedd nesaf.

Ymwadiad: mae’r datganiad uchod wedi’i baratoi gan Heddlu Gogledd Cymru. Nid yw’r barnau a’r wybodaeth arno o angenrheidrwydd yn cyfateb i farn yr HMIC.

Mae HMIC yn dweud...

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau plismona i ardaloedd Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Mae ardal yr heddlu'n cynnwys 2,375 o filltiroedd sgwâr ag oddeutu 40 milltir o forlin yng Ngogledd Cymru. Er bod rhai ardaloedd yn fwy cefnog, mae gan Ogledd Cymru lefel uchel o dlodi. Mae oddeutu 0.7 miliwn o bobl yn byw mewn sefyllfa sy'n wledig yn bennaf. Mae ei nifer o ardaloedd trefol amlwg a bach yn cynnwys tref Wrecsam. Cynyddir y boblogaeth breswyl gan fyfyrwyr prifysgol a'r niferoedd mawr iawn sy'n ymweld neu'n teithio trwy'r ardal bob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafnidiaeth hefyd yn cynnwys porthladd môr mawr.

Mae Cymru a Lloegr yn cynnwys dros 181,000 o ardaloedd bach a elwir yn ardaloedd allbwn cyfrifiad (OA). Diffiniwyd y rhain gan Y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn casglu ynghyd bobl â nodweddion tebyg ac i gynnwys, ar gyfartaledd, 125 o gartrefi. Mae maint yr ardal ddaearyddol a gwmpasir gan bob OA yn amrywio yn ôl dwysedd y boblogaeth mewn rhannau gwahanol o'r wlad. Mae'r OA mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys 20,166 o hectarau, a mae'r un lleiaf yn cynnwys llai na 0.02 hectar. Mae maes pêl-droed yn cynnwys oddeutu 0.75 hectar.

Mae 2,286 o OAs yng Ngogledd Cymru â maint cyfartalog o 269 o hectarau sy'n llawer mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol o 87 o hectarau. Mae rhyw 39 y cant o'r ardaloedd OA yng Ngogledd Cymru yn gymharol fach ar lai na 10 hectar a mae chwarter (25 y cant) yn eithafol fawr o ran maint (dros 100 o hectarau) sy'n dangos natur yr ardal sy'n wledig yn bennaf. Canolbwyntir yr ardaloedd OA lleiaf yn y nifer o drefi bach, gyda'r gwasgariad mwyaf ar draws yr ardaloedd gwledig a mynyddig â phoblogaeth fwy gwasgaredig.

Y fantais o ddadansoddi ar y lefel ardal allbwn yw ei fod yn cefnogi ymagwedd sy'n canolbwyntio ar bobol. Mae gwahaniaethau o ran nodweddion economaidd-gymdeithasol pobl sy'n byw mewn gwahanol ardaloedd OA yn arwain at ymddygiadau gwahanol, gan gynnwys y defnydd o wasanaethau cyhoeddus. Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn yr wybodaeth a gesglir mewn setiau data mawr megis y cyfrifiad, data pwynt diddordeb yr Arolwg Ordnans (OS) a ffynonellau lled-economaidd eraill a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn.

Mae HMIC wedi bod yn gweithio gyda'r London School of Economics i ddefnyddio technegau econofetrig i roi model ystadegol a rhagweld lefel y galwadau adweithiol ar gyfer gwasanaethau heddlu ym mhob OA yng Nghymru a Lloegr. Trwy ddefnyddio data o ddigwyddiadau'r heddlu a nifer o filoedd o nodweddion (newidion) a dynnir o ddata cyfrifiad, data pwynt diddordeb OS a setiau data llai eraill ar gyfer pob OA,

mae wedi bod yn bosibl rhagweld y nifer o ddigwyddiadau ar gyfer pob OA a phenderfynu pa mor heriol y bydd pob OA yn debygol o fod i'w blismona. Hefyd rydym wedi defnyddio prisiau tai o'r Gofrestrfa Tir fel dangosydd procsi ar gyfer cyfoeth. Mae gan Ogledd Cymru bris tŷ canolrifol, wedi'i seilio ar yr ardaloedd OA sydd wedi cael trafodyn eiddo o fewn y 12 mis diwethaf, o £146,996 sy'n is na'r canolrif ar gyfer Cymru a Lloegr (£230,358). Mae gan Ogledd Cymru 11.2% o'i ardaloedd OA o fewn y 10% isaf o brisiau tŷ ar y lefel genedlaethol, tra bod 3.3% o ardaloedd OA o fewn y 10% uchaf o brisiau tŷ ar y lefel genedlaethol (a 0.9% o ardaloedd OA o fewn yr 1% uchaf). Mae hyn yn awgrymu bod ardaloedd mawr o dai gwerth is ac amddifadedd, gyda chyfran fach iawn o gyfoeth sylweddol a phrisiau tai uchel.

Nid yw'r galwadau am wasanaethau heddlu yr un ym mhob ardal o Gymru a Lloegr. Mae ein dadansoddiad wedi datgelu bod nodweddion demograffig-gymdeithasol ardal yn dylanwadu ar y galwadau am wasanaethau heddlu yn yr ardal honno.

Ym mhob heddlu, mae crynhoad o alwadau rhagweledig mewn nifer fach o'i ardaloedd OA. O ystyried Cymru a Lloegr fel cyfanrwydd mae'r 1,811 (1 y cant) mwyaf heriol o'r rhain yn cyfrif am 10.8 y cant o'r holl ddigwyddiadau rhagweledig. Rydym wedi dynodi'r ardaloedd hyn fel rhai sy'n cyflwyno her uchel iawn ac wedi canfod y'u nodweddir gan grynhoad uchel o bobl yn byw, gweithio, cymdeithasu neu deithio yn yr ardal. Mae nodweddion sy'n achosi a/neu ddangos crynhoad o bobl yn cynnwys y nifer o safleoedd masnachol, gan gynnwys safleoedd trwyddedig, safleoedd bwyd cyflym, cludiant cyhoeddus ac amddifadedd cymdeithasol. Mewn rhai ardaloedd, mae'r nodweddion hyn wedi'u cyfuno.

Mae 0.7 y cant o'r ardaloedd o her uchel ar y lefel genedlaethol yng Ngogledd Cymru. Mae'r un y cant o ardaloedd OA sy'n cyflwyno'r her uchaf yn y llu'n cyfrif am 7.0 y cant o ddigwyddiadau rhagweledig Gogledd Cymru, a mae'r galwadau rhagweledig hyn yn debygol o ddigwydd mewn dim ond 0.3 y cant o holl ardal y llu.

O fewn Gogledd Cymru:

- mae'r gyfran o ardaloedd OA sy'n cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o ddigwyddiadau yn is na'r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae'r gyfran o ardaloedd OA sy'n cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o droseddu'n is na'r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae'r gyfran o ardaloedd OA sy'n cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn is na'r lefel genedlaethol o un y cant;

- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o alwadau argyfwng a blaenoriaeth am gymorth mewn digwyddiadau yn isel iawn o gymharu â’r lefel genedlaethol o un y cant; a

- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o alwadau argyfwng a blaenoriaeth am gymorth mewn troseddau’n is na’r lefel genedlaethol o un y cant;

Fel dangosydd o’r her i’r heddlu gyrraedd dinasyddion ym mhob rhan o Ogledd Cymru fe wnaethom gyfrifo’r amser teithio a phellter cyfartalog o bwynt canolog ardal y llu i ganol pob un o’r 2,286 o OAs. Mae’r cyfrifiadau hyn o bellter ac amser wedi’u seilio ar ddefnyddio’r rhwydwaith ffyrdd o dan amodau a chyflymderau gyrru arferol a maent yn dangos maint yr ardal ac ansawdd ei rhwydwaith ffyrdd.

Mae gan Ogledd Cymru 322 milltir o draffyrdd a chefnffyrdd; mae’r pellter teithio cyfartalog o 31 milltir (yr hwyaf yw 72 milltir a’r byrraf yw 2 filltir) a’r amser teithio cyfartalog o 52 munud o ganol y llu i bob OA yn uwch na’r cyfartaleddau cenedlaethol priodol o 17 milltir a 30 munud. Mae hyn yn arddangos maint a thopograffeg Gogledd Cymru a natur ei ffyrdd.

Er y gall y crynhoad o alwadau mewn nifer fach o leoliadau (yn cwmpasu ardal fach iawn) fod yn ddefnyddiol o ran canolbwyntio adnoddau, nid yw’n gyfanrwydd y galw. Mae’r ddarpariaeth o wasanaethau’n ymestyn y tu hwnt i’r ardaloedd hynny sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu ac yn cynnwys yr ardaloedd lleiaf heriol a mwyaf anghysbell. Mae’r her o ddarparu gwasanaethau trwy gydol Gwent yn swyddogaeth sy’n cynnwys llawer o bethau gan gynnwys maint a thopograffeg yr ardal, y rhwydwaith ffyrdd a faint o dagfeydd sydd ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae’r ystyriaethau hyn yn dylanwadu ar sut mae adnoddau’r heddlu’n cael eu trefnu a’u rheoli - er enghraifft ble lleolir swyddogion heddlu a’u patrymau gweithio.